Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru South Wales Fire and Rescue Service

Swyddog Cyfathrebiadau, Atynnu ac Ymgysylltu x 2

Rhif y Swydd: 503104

GRADD 7 - CYFLOG: £25,878 - £26,845

37 awr yr wythnos

Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n chwilio am weithiwr cyfathrebiadau ac ymgysylltu ymroddedig a chreadigol i ymuno â'n Tîm Y Wasg a Chyfathrebiadau prysur a leolir yn ein Pencadlys yn Llantrisant.

Mae cyfathrebu ac ymgysylltu ill dau'n chwarae rôl gritigol o fewn cenhadaeth y Gwasanaeth i 'gadw De Cymru'n ddiogel wrth leihau risg'. Bydd deilydd y swydd yn gweithio ar draws pob agwedd o gyfathrebu ac ymgysylltu, yn cynhyrchu datrysiadau arloesol wrth drefnu a hwyluso gweithgareddau ymgysylltu a chyfathrebiadau mewnol ac allanol. Bydd hyn yn cynnwys rheoli ymgyrchoedd, cysylltu â'r wasg, hwyluso a chydlynu digwyddiadau ymgysylltu lleol ac ar raddfa fawr.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr feddu ar sgiliau ysgrifennu cryf a'r gallu i ychwanegu dawn greadigol i'n cynnwys a gynhyrchwyd yn fewnol, gan gynnwys diwgyddiadau a gweithgareddau sy'n ymwneud â recriwti, lleihau risg ac enw da'r Gwasanaeth. Bydd y swydd yn gofyn am weithio'n gydweithredol ag ystod eang o bartneriaid a rhanddeiliaid ar draws 10 o Awdurdodau Unedol gan ddefnyddio amrediad o ddulliau i sbarduno Strategaeth Gyfathrebiadau ac Ymgysylltu'r Gwasanaeth yn rhagweithiol.

O fewn y rôl amrywiol hon, ni fydd un diwrnod yr un poeth gyda therfynau amser cystadleuol, felly bydd angen i'r ysmgeisydd llwyddiannus fod yn effeithlon, yn drefnus a hyderus wrth weithio'n annibynnol. Yn ogystal â bod yn gallu defnyddio eich dyfeisgarwch a datblygu syniadau newyddd, mae'r Gwasanaeth yn chwilio am aelod tîm fydd yn mwynhau gweithio'n gydweithredol. Mae'r gallu i deithio'n hanfodol ar gyfer y swydd hon, gan fydd y rôl yn gofyn am ymgysylltu ag adrannau mewnol ar draws ein Gorsafoedd a'n safleoedd o fewn De Cymru gan gynnwys partneriaid allanol a rhanddeiliaid allweddol.

Os ych chi'n storïwr creadigol sydd â llygad barcud am stori o'r newyddion, ry'n ni'n edrych ymlaen yn eiddgar i glywed gennych!

Dylid llenwi Ffurflenni Cais ar-lein trwy ein system e-recriwtio, y gellir ei chyrchu trwy ein gwefan: https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-gyda-ni/swyddi-diweddaraf/

Os oes angen fersiwn papur, e-bostiwch: personel@decymru-tan.gov.uk

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw **08/02/2023 am 12:00 o'r gloch.**

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac rydym yn croesawu cyfathrebu yn y ddwy iaith. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddo yn y cam Llunio Rhestr Fer yn cael cyfle i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau

llafar a chwestiynau cyfweliad). Bydd y trefniadau'n cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweliad a gellir darparu gwasanaeth Cyfieithu a/neu Gyfieithu ar y Pryd.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn credu yng ngwerth gwirioneddol cael gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol i ymgeiswyr o bob sector cymdeithas ymgeisio.